

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Bethan Roberts**

Clerc Cynorthwyl  
*Support Clerk*

**Caroline Jones**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol ar nos Iau 12 Mai 2022 am 18.30

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris  
Y Cynghorydd Evan Jones (Rhithiol)  
Y Cynghorydd Geraint Hughes  
Y Cynghorydd Lowri Evans  
Y Cynghorydd Megan Tomos  
Y Cynghorydd Alun Thomas

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris  
Y Cynghorydd Kevin Williams  
Y Cynghorydd Dafydd Keith Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Wyn Bowen Harris.**

**2. Ymddiheuriadau** - dim, pawb yn bresennol.

### 3. Cofnodion

Adroddwyd fod rhai o'r cynghorwyr wedi gael ei nodi yn y wardiau anghywir, y Clerc i ddiwygio. Yn dilyn yr addasiad yma, penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2022.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Twll yn y ffordd ger y Wern** – Dim diweddariad. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad, a'r Clerc i holi Cng. Dafydd Meurig.

**Cysylltiad Fibreoptig** – Y Cyng Megan Tomos wedi bod mewn cysylltiad gyda Hywel Williams AS ynglyn a sefyllfa y Fibreoptig. Adroddwyd fod Fferm Sychnant ddim am gael mynediad i cysylltiad fibreoptig. Cafwyd trafodaeth am y polyn sydd wedi ei osod ger Wern Bach – Penderfynwyd bydd y Clerc yn llythyru Lee Waters AS a Sian Gwenllian AS.

**Llyn Bryn** – Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu â'r Stad i nodi pryderon y Cyngor am y 3 bwlch, dim ymateb hyd yn hyn.

**Sedd Wag** – Y Clerc i hysbsyu'r sedd wag cyn gynted a phosib.

**Arwyddion Maes y Groes** – Dim arwyddion wedi ei osod hyd yn hyn, y Clerc i gysylltu gyda Ian Morgan, Cyngor Gwynedd i gael diweddariad.

**Datblygiadau Bronydd Isaf** – Dim diweddariad hyd yn hyn, nodwyd fod yr adran gorfodaeth yn hynod o brysur ar hyn o bryd a dim ond 2 aelod o staff yn delio gyda'r holl achosion yn Ngwynedd.

**Gardd Cymunedol** – Y Cyng. Evan Jones wedi codi pryderon ynglyn a'r gwely llechi sydd wedi cael ei osod gan Blodeuwedd Botanig. Y Cyng. Evan Jones i drafod pryderon y Cyngor gyda Coryn Bye ar frys, y Clerc i ddanfon rhif cyswllt at y Cynghorydd.

**Ffordd Llwyn Bleddyn – cais am linellau Melyn** – Nodwyd fod Cyngor Cymuned Bethesda wedi gwneud cais i Cyngor Gwynedd am amodau parcio yno, yn lle llinellau melyn (dim parcio rhwng 8yb a 5yh). Y Clerc i wneud cais i Cyngor Gwynedd am drych newydd ar y gornel.

**Pant Bowls** – Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyng. Dafydd Meurig.

**Bryn Derwas** – Wedi danfon yr ebost ymlaen at y Cyng. Evan Jones - disgwyl ymateb .

**Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd** – Y Clerc i rannu rhif ffon y Cyng. Alun Thomas gyda'r adran Llwybrau.

**Prosiect Partneriaeth y Carneddau** – Nodwyd fod y Cyng. Megan Tomos am drefnu cyfarfod gyda Dr Prysor Williams i drafod y cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. Y Clerc i ofyn am adroddiad blynyddol y cynllun. Pendwrfynwyd y bydd pawb yn danfon rhestr o waith sydd angen ei gwblhau i'r Clerc. Nodwyd fydd Abbie Edwards o'r Bartneriaeth yn mynychu'r cyfarfod cyffredinol ym mis Mehefin.

**Gwaith adnewyddu ar y corlannau** - Y Clerc i rannu rhif ffon y Cyng. Kevin Williams gyda Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol.

**Stad Penrhyn** – Y Clerc i wahodd Elis Jones i gyfarfod, dim ymateb hyd yn hyn.

**Cae Peldroed Talybont** – Disgwyl ymateb gan yr adran cynllunio, Cyngor Gwynedd a cwmni o Gaernarfon am 'container'. Y Cyng. Alun Thomas i chwilio am brisiau peiriant torri gwair. Nodwyd y Cyng. Evan Jones fod nifer o wirfoddolwyr wedi cynnig i dorri'r gwair, y Clerc i holi os yw yswiriant y Cyngor yn caniatáu hyn.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Julian Johnson	Torri gwair mis Ebrill	£320
----------------	------------------------	------

## 6. Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i benodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd unwaith eto fel Archwilydd ar gyfer cyfrifon 2021-22.

## 7. Y Mynydd

Derbynwyd adroddiad cyfarfod yr Is-bwyllgor Mynydd gan y Cyng. Megan Tomos.

## 8. Gohebiaeth

**BHIB – Yswiriant y Cyngor** – Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda'r cwmni.

## 9. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr.

Dim.

## 10. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio

### **C20/0504/21/LL**

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C21/0078/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C21/0099/21/CC**

Ogwen Bank, Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **NP3/21/28E**

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

### **C22/0206/21/CR**

Pont Tal Y Bont, Bangor

Gwaith dros dro i osod dau beipen lawr ochr y bont (hyd at Rhagfyr 2022)

**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

## **Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

## 13. Materion Brys

**Adroddiad Llais Ogwan** – Penderfynwyd y bydd yr adroddiad nesaf yn cynnwys diweddariad ar cae chwarae Talybont, trafodaethau gyda Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a rhestr rhoddion blynyddol y Cyngor.

**Llwyn Bedw** – Adroddwyd fod rhifau 12 a 13 Llwyn Bedw o fewn ffi plwyf Bethesda ac felly yn talu treth y plwyf hon, ond fod gweddill y stad yn plwyf Llanllechid. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor. Paul Rowlinson a Dafydd Meurig i holi am hanes y ffin, a pryd symudwyd y ffin hanesyddol.